



**Comisiynydd Heddlu a
Throseddu Dyfed-Powys**

Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011

Chwarter 3 2019/20 Crynodeb o Adroddiad Perfformiad

Cyflwyniad

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (PRSRA) 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pobl ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt dros y plismona cyfan yn eu hardal. Mae gofyn iddynt ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflenwad gweithredol y plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 PRSRA yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n gymwys i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Amlinella'r protocol hwn rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r berthynas bedair rhan, sef y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabl, Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob un o'r grwpiau yn cadw at y 7 egwyddor a amlinellir yn y Safonau Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y grwpiau hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob grŵp yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae hyn gyfwerth â 21 maes sydd wedi'u torri i lawr i 61 ardal weithredu yn ôl amryw feysydd busnes o fewn SCHTh, y mae 4 ohonynt wedi'u nodi'n barhaol yn Amherthnasol sy'n gadael 57 o feysydd gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Mae pob adran yn derbyn sgôr RAG i dynnu sylw at unrhyw feysydd pryder

Gwyrdd – Cydymffurfio'n llawn, dim gwaith ychwanegol yn angenrheidiol

Ambr – Cydymffurfio'n rhannol, ychydig o waith ychwanegol yn angenrheidiol


Coch – Ddim yn cydymffurfio, nid yw'r ddyletswydd yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter diwethaf.

Crynodeb Gweithredol


Mae'r adroddiad a ganlyn yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch3 y flwyddyn ariannol 2019/20 (Hydref/Tachwedd/Rhagfyr 2019)

Cymhariaeth statws CAG



Does **DIM UN** o'r meysydd gweithredu wedi'u marcio'n goch

Bu rhywfaint o welliant yn y meysydd sydd wedi'u marcio'n ambr a gwyrdd, gyda nifer y meysydd gweithredu ambr wedi gostwng o 13 i 10, a nifer y rhai gwyrdd wedi cynyddu o 39 i 43.



Ar hyn o bryd, does dim un maes gweithredu wedi'i farcio'n goch - anghydfurfiol.

Mae pob maes yn cydymffurfio'n rhannol o leiaf, gyda rhai categorïau'n sefyll allan fel rhai sydd angen mwy o sylw oherwydd y canran o ambr o fewn y categori:

17g - Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu - (3/7) 43% ambr

17h - Ymrwymo i gytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill - (2/3) 67% ambr

Dyletswydd	Rhif	Camau sy'n Ofynnol	Statws CAG	Diweddariad ar Gynnydd Ch2 (Gorff/Awst/Medi 2019)
Gosod cyfeiriad strategol ac amcanion yr Heddlu trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gorfod ystyried y Gofyniad Plismona Strategol	17a	Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Nedd Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7)		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Yn 2018, penderfynodd CHTh bod y Cynllun digon eang ei fod dal yn berthnasol ar gyfer hyd tymor y Cynllun. Mae gwaith wedi cychwyn ar gyfer cwmpasu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf, a fydd angen ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2021 yn dilyn yr etholiadau nesaf ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.
		Datblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017 ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu. Mae cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n canolbwyntio ar bob un o ganlyniadau arfaethedig y Cynllun er mwyn monitro cyflenwi'r blaenoriaethau.
		Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben		Mae'r Panel Heddlu a Throseddu wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddu; gan geisio barnau gan Awdurdodau Lleol ar p'un a yw'r Cynllun yn parhau yn addas i'r diben ac a yw'n cynnwys yn briodol natur y bygythiadau i'n cymunedau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 15 Chwefror 2019, pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon eang iddo barhau yn addas i'r diben.
Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun	17b	Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol		Mae adolygiad ffurfiol o drefniadau llywodraethu SCHTh wedi'i gynnal ar y cyd gydag adolygiad yr Heddlu o'u trefniadau llywodraethu. Mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud i strwythurau i sicrhau llif effeithlon o wybodaeth i gefnogi craffu effeithiol. Mae'r strwythur newydd wedi'i weithredu o 1 Mehefin 2019.
		Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		I'w ddatblygu yn ystod y chwarter nesaf.
		Sefydlu amserlen flaengar o weithgareddau ar sail risg i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu		Mae rhaglen graffu'r CHTh yn parhau i ddatblygu gyda blaengynllunio mwy soffistigedig o themâu. Mae themâu hefyd yn cael eu cychwyn o ffynhonnell ehangach, gan gynnwys dod yn fwy ymatebol i adborth cyhoeddus a cheisiadau gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r blaenraglen waith o weithgarwch craffu'n ystyried meysydd sydd angen gwella/argymhellion AHGTAEM ac archwiliadau mewnol sy'n aros, yn ogystal â datblygiadau allanol a risgiau corfforaethol. Er waethaf amserlen gyson heriol o weithgarwch craffu a gofynion gweinyddol ychwanegol a gyflwynir gan y Cynllun Peilot Arsylywyr Dalfeydd Annibynnol, mae blaengynllunio ac amseroldeb adrodd wedi parhau i wella. Mae'r cynnydd mawr ymddangosiadol mewn arsylywadau a gyhoeddir yn ymwneud â newidiadau i dempledi adrodd a gwell arferion cofnodi o fewn SCHTh.

		Sicrhau bod barnau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yng ngwaith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu		Datblygiad o bwys yng ngwaith craffu CHTH yw cyflwyniad y Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol. Y chwarter hwn, mae'r cynllun peilot wedi dechrau datblygu go iawn, gyda 12 o'n Hymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn gwirfoddoli amser ychwanegol er mwyn cyfrannu i'r cynllun peilot. Yn ogystal â'u hymweliadau dirybudd arferol, mae'r gwirfoddolwyr yn mynd i SCHTH er mwyn adolygu cofnodion dalfeydd hap sampl o garcharorion sy'n agored i niwed. Mae adroddiadau misol yn cael eu cynhyrchu gan y Swyddog Cymorth Sicrwydd, sy'n manylu canfyddiadau'r gwirfoddolwyr. Darperir yr adroddiadau i Brif Arolygydd y Ddalfa er mwyn adolygu a gweithredu. Mae prosesau pellach yn cael eu sefydlu er mwyn lansio ail gam y cynllun peilot yn ystod y chwarter nesaf, a fydd yn gweld ymweliadau â dalfeydd yn cael eu hestyn er mwyn adolygu agweddau ychwanegol o deithiau carcharorion trwy'r ddalfa.
		Trosolwg a gweithrediad ar argymhellion arolygiaethau allanol		Ymatebwyd i un o'r ddau adroddiad arolygu yn ystod y chwarter o fewn yr amserlen statudol. Bu oedi o 4 diwrnod mewn perthynas â'r llall oherwydd amryfusedd gweinyddol.
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu	17c	Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu		Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae'r gwiriad iechyd Protocol Plismona wedi bod mewn grym ers Hydref 2018. Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter diwethaf. Mae'r gwiriad iechyd yn cael ei gwblhau gan bob maes busnes ar sail chwarterol er mwyn dangos gwella parhaus.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu sy'n cynnwys y Bwrdd Atebolrwydd Plismona sy'n gyfarfod cyhoeddus lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Yn ychwanegol ceir cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob 3 wythnos sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol wedi'u cysylltu â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Ymhlith yr eitemau agenda sefydlog y mae Cyllid ac Adnoddau Dynol Strategol.
		Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl		Rhoddwyd llythyr ffurfiol yn rhoi manylion amcanion ar gyfer 2019/20 i'r Prif Gwnstabl ym mis Ebrill 2019.
Penderfynu ar y gyllideb, neilltuo asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu	17d	Hysbysu penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r praesept		Darparwyd gwybodaeth fanwl i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ystod 2018/19 i hysbysu ei benderfyniad mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys seminar a oedd yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu ac aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio lle mynegodd y Prif Gwnstabl a'r Cyfarwyddwr Cyllid sefyllfa gyfredol yr Heddlu a rhagweld yr heriau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

		Gosod y cynllun ariannol tymor Canolig		Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i osod a'i ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2019
		Ariannu rhaglen gyfalaf i roi asedau priodol i'r heddlu i gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol		Rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20 wedi'i gosod a'i hystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Ionawr 2019
Penodi'r Prif Gwnstabl	17e	Penodi'r Prif Gwnstabl		Mark Collins wedi'i benodi'n Brif Gwnstabl o 18 Rhagfyr 2016 ar gytundeb tymor penodol o 5 mlynedd
Diswyddo'r Prif Gwnstabl	17f	Dilyn proses a amlinellir yn Rhan 2 Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 Deddf yr Heddlu 1996(a)		Amh.
Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu	17g	Sicrhau Gwerth am Arian		Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u gwreiddio drwyddi draw'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwiliad Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrwydd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn nefnydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl o adnoddau.
		Cydymffurfiad statudol ystadau yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer defnydd gweithredol		Ers i gytundeb CBRE ddechrau, mae eu perfformiad misol ar ddarpariaeth lefel gwasanaeth wedi bod yn 90% a mwy yn gyson, fodd bynnag, mae'r tîm ffabrig adeiladu wedi cymryd mwy o amser i addasu i'r systemau newydd drwy'r cyfnod symud hwn, ac rydyn ni wedi gweld cydymffurfiaeth yn codi o 60% i 84%.
		Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith amgylcheddol		Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd wedi ceisio'r ymrwymiad gan adrannau ar draws yr heddlu, ac mae manylion hyn yn cael eu troi'n gynllun gweithredu a fydd yn cael ei gyflwyno dros y 12 mis nesaf. Mae'r defnydd o bapur wedi'i adolygu a gofynnwyd i bob adran leihau eu defnydd. Mae'r prosiect goleuadau Deuodau Allyrru Golau wedi cychwyn, ac mae'r broses o ddewis gwneuthurwr a dylunio manwl yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Mae cyfleusterau gwefru ceir yn cael eu cynllunio.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd ariannu allanol		Mae sganio gorwel dal yn digwydd bob dydd. Cafwyd sgysiaid yn ddiweddar gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn trafod y gronfa Strydoedd Mwy Diogel a sut y gellir defnyddio hyn yn lleol.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd menter nawdd		Bu trafodaethau rhwng SCHTh a'r Adran Fflyd mewn perthynas â'r posibilrwydd o noddi rhai cerbydau ar draws yr Heddlu. Mae'r mater yn destun ymchwiliad.

		Gweithredu a chynnal cofrestr risg i adnabod a lliniaru ar risgiau i'r SCHTh a'r heddlu		<p>Mae SCHTh yn ymwybodol o gofnodion yng nghofrestr risg yr Heddlu ac yn cael eu diweddarau gan Ymgynghorydd Rheoli Parhad Busnes a Risg yr Heddlu am unrhyw risgiau sy'n debygol o effeithio ar y swyddfa.</p> <p>Mae gan SCHTh ei chofrestr risg ei hun, a gafodd ei hadnewyddu ym mis Rhagfyr 2019 a'i chyfathrebu i holl aelodau staff SCHTh. Mae dal peth gwaith i'w wneud o ran sicrhau bod y gofrestr yn cael ei defnyddio'n gywir a bod pob aelod staff yn ymwybodol o'r risgiau ac yn cyflwyno cofnodion.</p>
		Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh		Mae amcanion Proffil Datblygu ac Asesu wedi eu cynnal ar gyfer holl aelodau staff SCHTh, a oedd yn cynnwys trafodaethau ynghylch anghenion datblygu a hyfforddi. Mae cyllideb benodol ar gael ar gyfer hyfforddiant er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol.
Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill	17h	Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth Blismona ar gyfer Cymru		Mae lle pendant i gydweithio ar agenda Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n adolygu cydweithio i weld pa un ai a yw'r mwyaf yn cael ei wneud o gyfleoedd, a pha un ai a oes modd gwneud mwy. Rydyn ni'n disgwyl canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwn er mwyn penderfynu ar y camau nesaf.
		Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill		Rydyn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid allanol ar ddatblygu prosiectau sy'n cwmparu tir cyffredin. Mae'r 4 Heddlu'n parhau i gydweithio ar y prosiect Cronfa Ymyrraeth Gynnar leuenctid ac maen nhw'n cynnal trafodaethau er mwyn ystyried prosiect ar gyfer y Gronfa Gwaddol leuenctid yn y dyfodol. Rydyn ni hefyd yn edrych ar ddatblygu prosiectau gyda phartneriaid o dan Gronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i graffu ar gytundebau cydweithio.		Daeth y CHTh Llywelyn yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019, ac mae wedi cyflwyno strwythur newydd er mwyn cefnogi craffu ar drefniadau cydweithio. Mae'r ymagwedd newydd hon yn sicrhau ymagwedd thematig a chanolbwytiedig tuag at graffu ar gydweithio. Mae Blaenraglen Waith mewn grym ar gyfer tymor CHTh fel cadeirydd i graffu ar amrediad o drefniadau cydweithio.

<p>Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith</p>	17i	<p>Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu SCHTh, gan gynnwys rhoi cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwaith CHTh a'r PG yn rhagweithiol</p>		<p>Rydyn ni dal yn cyfeirio at Strategaeth Ymgysylltu SCHTh wrth ystyried ein gwaith ymgysylltu, ond bydd gwaith pellach yn cael ei gwblhau ar hyrwyddo ein hymagwedd, a sicrhau ei bod yn unol ag ymagwedd ymgysylltu'r Heddlu yn ystod Ch4.</p> <p>Gweithiwyd ar ddata Ymgyrch Cynefin yn ystod Ch3. Rhannwyd canlyniadau gyda'r holl bartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau bod yr ymatebion a ddarparwyd yn nwyrain y Drenewydd yn cael eu hystyried yn fanwl gan y bobl berthnasol. Cyfarfu CHTh a'r Ymgynghorydd Ymgysylltu â'r Tîm Plismona Bro lleol, GanBwyll, a chynrychiolwyr o Gyngor Sir Powys. Trafodwyd canlyniadau arolwg yn fanwl a phenderfynwyd ar gamau gweithredu posibl. Bydd y gweithgarwch dilynol yn cael ei gynnal yn Ionawr / Chwefror 2020, lle y byddwn ni'n medru dangos ein bod ni a'n partneriaid wedi gwrandao ar ganfyddiadau Ymgyrch Cynefin ac wedi gweithredu arnynt, yn y gobaith y bydd y camau hyn yn gwneud gwahaniaeth o fewn y gymuned. Er enghraifft, monitro cyflymder tu allan i'r ysgol leol lle mae ymatebwyr wedi dweud bod goryrru'n digwydd.</p> <p>Trafododd CHTh a staff faterion lleol gyda swyddogion lleol, grwpiau cymunedol / sefydliadau amrywiol a phreswylwyr yn ystod Digwyddiad Ymgysylltu Cymunedol 2 ddiwrnod o hyd Powys ar draws Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt, Llanwrtyd a'r Drenewydd yn ystod Ch3. Er enghraifft, roedd CHTh yn bresennol mewn cyfarfod cyhoeddus gyda'r hwyr yn Llanwrtyd yn ystod y diwrnod cyntaf, lle'r oedd pobl lleol yn medru dweud wrth y CHTh a swyddogion o'r Tîm Plismona Bro lleol (a oedd yno ar gais SCHTh) am eu hymholiadau a'u pryderon lleol.</p> <p>Yn ystod Ch3, lansiodd y CHTh ei ymgynghoriad cyhoeddus ar osod y praesept heddlu. Y prif gwestiwn oedd: "Faint yn fwy fydech chi'n fodlon talu bob mis drwy'r praesept heddlu? £1 yn fwy; £1.50 yn fwy neu £2 yn fwy?" Agorodd yr ymgynghoriad ar 5 Rhagfyr, gan gau ddechrau Ch4. Bydd dadansoddiad yn cael ei roi i'r Tîm Gweithredol ganol Ionawr 2020. Bydd canlyniadau'r arolwg yn hysbysu penderfyniad CHTh ar elfen praesept heddlu'r Dreth Gyngor.</p> <p>Yn ystod Ch3, edrychom ar dreialu sgwrs fyw ar-lein gyda dioddefwyr mewn perthynas â'r broses Cyfiawnder Adferol. Byddai hyn wedi rhoi cyfle i ddioddefwyr hysbysu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol yn Nyfed-Powys a dylanwadu arno. Yn anffodus, ni fynegodd unrhyw ddiodydd ddiddordeb mewn ymuno â'r sgwrs ar-lein hon. Bydd gwaith ar y maes ymgynghori ac ymgysylltu hwn yn cael ei ddatblygu yn ystod Ch4.</p> <p>Yn ystod Ch3, arweiniodd SCHTh ymgynghoriad ar yr amcanion sydd i'w gosod yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol newydd HDP a SCHTh, sydd i'w gymeradwyo yn ystod Ch4. Cynhyrchwyd arolwg byr yn gofyn i gyfranogwyr gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r amcanion drafft. Bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried yn ystod Ch4.</p> <p>Ym mis Hydref, cynhaliodd y CHTh ddau ddigwyddiad gyda'r nos er mwyn dangos yr isadeiledd TCC i gynrychiolwyr cymuned lleol a wahoddwyd i'r digwyddiadau: ASau/ACau, Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned, a gwirfoddolwyr SCHTh. Bydd trydydd digwyddiad yn cael ei gynnal ar gyfer Cynghorwyr Sir ym mis Chwefror 2020.</p> <p>Yn ystod y Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol ym Mhowys, ymwelodd y CHTh a'i staff â sefydliadau addysgol lleol a grwpiau cymunedol i'w hysbysu am ei rôl a thrafod y gwasanaethau a</p>
---	-----	---	--	--

				<p>ddarperir. Er enghraifft, rhoddodd y CHTh gyflwyniad i ddau set o fyfyrwyr yng Ngholeg y Drenewydd ar rôl CHTh, o'i gymharu â'r PG, a derbyniodd gwestiynau gan y myfyrwyr ar bynciau amrywiol a oedd yn seiliedig ar yr heddlu a chyllideb.</p> <p>Ar 18 Tachwedd, cynhaliodd y CHTh a'r PG sesiwn fyw ar Facebook yn dilyn cyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd yn Ninbych-y-pysgod - cyfle i drafod blaenoriaethau CHTh/PG, ateb cwestiynau a rhoi gwybodaeth. Hwn yw'r trydydd tro mae'r CHTh a'r PG wedi cynnal sesiwn o'r fath, ac mae'r ddau'n awyddus i gynnal un arall ym mis Chwefror 2020.</p> <p>Cyhoeddwyd cylchlythyr CHTh, Cyswllt Cymunedol, ym mis Rhagfyr 2019. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am waith CHTh a SCHTh yn ystod y misoedd diwethaf yn Ch3. Roedd yn rhoi gwybod i'r darllenwyr am y cyfle i ddweud eu dweud ar y praesept heddlu. Hefyd, roedd yn cynnwys erthygl fanwl a oedd yn rhoi adborth i ddarllenwyr am ddarn o waith ymgynghori blaenorol a wnaed gan SCHTh ar gyswllt y cyhoedd â'r heddlu. Roedd yr adborth yn cynnwys prif ganfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion a gyflwynwyd i'r PG.</p> <p>Fel uchod, mae'r cyhoedd wedi bod yn rhan o lunio gwasanaethau lleol a chraffu arnynt drwy ein gwaith Craffu Dwys ar gyswllt â'r cyhoedd (cawsant wybod am y canlyniadau yn ch3), drwy ein hymgynghoriad ar yr elfen praesept heddlu o'r dreth gyngor, yn ogystal â'n hymgynghoriadau Ymgyrch Cynefin a Chynllun Cydraddoldeb Strategol. Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos â'n partneriaid lleol er mwyn rhoi llais i'r cyhoedd.</p>
		<p>Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh, gan gynnwys cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau</p>		<p>Mae'r CHTh / SCHTh dal yn hyrwyddo ein digwyddiadau ymgysylltu, ymgynghoriadau, a gwybodaeth drwy amryw o ddulliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyfryngau cymdeithasol - Datganiadau i'r wasg - Ar lafar - Gyda help HDP, Tîmoedd Plismona Bro a phartneriaid eraill - Yn ddwyieithog - Ar bapur ac yn electronig <p>Cynigiwyd pob un o'r uchod gyda'r ymgynghoriad praesept heddlu, er enghraifft.</p> <p>Ceisiom dreialu sgwrs fyw ar-lein ar gyfer dioddefwyr hefyd. Yn anfodus, roedd hyn yn aflwyddiannus, ond rydyn ni'n parhau i geisio datblygu'r ymagwedd hon.</p> <p>Gall unigolion hefyd gysylltu â'r Comisiynydd drwy lythyr, dros y ffôn, drwy e-bost, drwy'r ffurflen gyswllt ar-lein, drwy gyfryngau cymdeithasol, neu yn ystod un o'i ddiwyddiadau ymgysylltu.</p> <p>Mae ein gwaith gyda'r Fforwm Ymgysylltu â Phobl Ifainc yn parhau.</p> <p>Mae ein gwaith ymgynghori ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn golygu bod unigolion â nodweddion gwarchoddedig wedi cael dweud eu dweud ar yr amcanion o fewn y CCS drafft.</p>

				<p>Pan rydyn ni'n cynnal digwyddiadau ymgysylltu, er enghraifft, y digwyddiadau TCC yn y Pencadlys fis Hydref, rydyn ni'n gofyn i'r rhai sy'n dod pa un ai a oes ganddynt unrhyw anghenion ychwanegol, ac yn darparu addasiadau rhesymol ar gyfer digwyddiadau o'r fath pan fod angen. Hefyd, roedd cyfieithydd Cymraeg yn bresennol yn ein digwyddiadau TCC.</p>
		Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd prydlon		Ni chwblhawyd 2 achos cwyn o fewn 30 diwrnod - roedd un yn ymwneud â diffyg darpariaeth data gan yr Adran Bensiynau, ac roedd yr ail yn ymwneud â salwch yr achwynydd, a achosodd oedi o ran cyfarfod.
		Ennyn diddordeb preswylwyr mewn cyfrannu at weithgaredd sicrwydd a chraffu		<p>Er bod dau wirfoddolwr wedi ymdeol o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn ystod y chwarter, mai nifer y gwirfoddolwyr yn y gweithle wedi tyfu ychydig oherwydd recriwtio parhaus i'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ac Ymwelwyr Lles Anifeiliaid craidd sefydlog.</p> <p>Mae ymweliadau annibynnol â dalfeydd a charcharorion sy'n cael eu gweld yn parhau'n gymharol sefydlog, sy'n nodi nad yw'r cynllun peilot wedi cael effaith andwyol ar y drefn graidd ar gyfer ymweld â dalfeydd o safbwynt gwirfoddolwyr.</p>
		Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddiodefwrwr a phobl fregus		<p>Ar y cyfan, mae gwasanaethau'n arddangos gwelliant mewn canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, yn unol â dychweliad data craidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Profwyd rhai materion mewn perthynas â gostyngiad yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaeth Goleudy - mae hyn yn cael ei drin drwy'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol. Nid oes cwynion wedi'u derbyn ar gyfer unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth CHTh.</p>
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rheini o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth	17j	17c		
Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a	17k	Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig		

gwybodaeth y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi i bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i fynd i'r afael â pherfformiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl				Mae'r Swyddog Cymorth Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn gwirio'r wefan yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y deunydd mae'r swyddfa'n cyhoeddi mor ddiweddar â phosibl. Cyflwynwyd y cais ar gyfer gwobr tryloywder y flwyddyn nesaf ym mis Hydref.
		Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygrych a hawdd ei gyrraedd		Mae'r Nod Ansawdd Tryloywder yn dangos ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a rhywddineb hygrychedd i bawb.
		Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg		Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu'n rheolaidd fel arfer cyn i unrhyw beth gael ei gyhoeddi, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yr un peth bob amser.
		Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol		Cyhoeddir datganiadau i'r wasg ar straeon newyddion allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a gomisiynir a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae'r wefan a'r daflen wasanaeth yn cael eu diweddarau gyda manylion y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr. Mae erthygl yn cael ei pharatoi i'w chyhoeddi yn y cylchgrawn 'PCC in Focus'.
Cydymffurfio â'r holl geisiadau ffurfiol rhesymol gan y Panel i fynychu eu cyfarfodydd	17l	Presenoldeb chwarterol mewn cyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddu		Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi mynychu'r holl gyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddu, ynghyd â swyddogion statudol – Y Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol.
		Darparu dogfennau i'r Panel Heddlu a Throseddu yn unol â'u ceisiadau		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddu a SCHTh wedi sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth a dogfennau yn brydlon yn unol â'u ceisiadau. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn annog ymgysylltiad ac yn croesawu cynrychiolwyr o'r Panel Heddlu a Throseddu ar fforymau eraill megis y Bwrdd Atebolrwydd Plismona, y Bwrdd Comisiynu a'r Cyd-bwyllgor Archwilio.
		Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddu i gefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddu a SCHTh wedi cefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol ar gyfer y ddwy ochr.
Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol	17m	Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Panel ar y ffordd y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyflawni yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u gosod o fewn y Cynllun		Yn ystod Ch3, aseswyd a sgoriwyd pob cais a dderbyniwyd gan gwmnïoedd allanol ar gyfer cytundeb i gynhyrchu fersiwn fideo o'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 yn unol â chanllawiau caffael. Roedd modd i ni roi'r cytundeb i gwmni lleol, a fydd yn cychwyn ffilmio gyda ni yn ystod Ch4.

Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a bod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl	17n	Trin cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl		Mewn perthynas â'r penderfyniad cofnodi o fewn 10 diwrnod gwaith - byddwn yn cynghori bod yr ail a'r trydydd cwyn wedi cyrraedd SCHTh yr wythnos cyn y Nadolig - roedd y swyddfa ar gau yn ystod y cyfnod hwn ac roedd cymhlethdodau mewn perthynas â'r penderfyniad i gofnodi. Trafodwyd hyn gyda'r Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a'r Adran Safonau Proffesiynol. Penderfynwyd peidio â chofnodi o fewn 10 diwrnod gwaith er mwyn casglu gwybodaeth a cheisio cyngor priodol a sicrhau bod y penderfyniad yn gywir - cymerwyd 16 diwrnod gwaith i wneud penderfyniad mewn perthynas â chofnodi cwyn 2, a chymerwyd 13 diwrnod gwaith ar gyfer cwyn 3.
		Cynnal trosolwg dros achosion o gwynion yn unol â'r hyn a ofynnir gan aelodau unigol o'r cyhoedd		Mae nifer yr achosion goruchwylio wedi lleihau'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf – gyda Swyddfa'r Comisiynydd nawr yn goruchwylio un achos mawr yn unig.
		Craffu ar y ffordd y mae'r Heddlu yn trin cwynion		Cynhaliwyd ymarfer hap samplio ym mis Tachwedd 2019. Rhoddodd yr Adran Safonau Proffesiynol eu sylwadau/adborth a thrafodwyd canlyniad yr ymarfer hwnnw yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 17.12.19.
		Sicrhau bod systemau a phrosesau wedi'u sefydlu yn barod ar gyfer rôl gynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf Heddlu a Throseddu 2017		Bydd newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gweithredu ym mis Chwefror 2020. Bydd tendr swydd 'Swyddog Adolygu Cwynion' yn digwydd yn ystod yr wythnos yn cychwyn 20/01/20. Bydd y Pennaeth Staff a Gweithiwr Achos Sicrhau Ansawdd yn mynd i Ddigwyddiad Canllaw Statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar 30.01.20. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â chyhoeddi'r swyddogaeth adolygu ar wefan SCHTh.
Ni ddylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr heddlu	18	Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		I'w ddatblygu yn ystod y chwarter nesaf.

Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff	19	Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi manylion trefniadau rhannu gwybodaeth		I'w ddatblygu yn ystod y chwarter nesaf.
		Trin gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data		Yn ddiweddar, derbyniodd y swyddfa archwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Edrychwyd ar ddiogelu data, diogelwch gwybodaeth, rhannu data a rheoli cofnodion. Tynnodd yr archwilydd sylw at nifer o feysydd arfer da ac mae cynllun gwella wedi'i sefydlu er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen gwella. Ni chodwyd unrhyw bryderon difrifol yn ystod yr archwiliad, ac mae gan y swyddfa'r holl brosesau a pholisïau mewn grym er mwyn sicrhau y glynir wrth ddeddfwriaethau.
Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd	20a	Datblygu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Comisiynu a Phartneriaethau		Mae dogfennau comisiynu ar gael, ac fe'u cyhoeddir ar wefan CHTh. Mae darpariaeth gwasanaeth, cyfarfodydd thematig y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a chyllideb a gomisiynwyd yn cyfateb â'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd, sy'n cyfateb â blaenoriaethau strategol y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Gwahoddir darparwyr gwasanaeth i roi cyflwyniadau i'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu yn rheolaidd er mwyn darparu craffu pellach ar ariannu a gweithgarwch. Bydd adolygiad annibynnol o wasanaethau dioddefwyr yn anelu i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion sy'n weddill o'r Asesiad o Anghenion.
		Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd		Mae'r CHTh yn darparu dau draean o gyfanswm y gyllideb gomisiynu o arian craidd, gyda thraean yn dod o grand dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae CHTh dal yn cefnogi gwasanaethau partneriaethau diogelwch cymunedol a Gwasanaethau Atal Troseddau leuenctid drwy roi dros £280,000 i'r partneriaethau. Mae CHTh dal yn cefnogi gwasanaethau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Gwasanaeth Atal Troseddau leuenctid drwy roi cyfanswm o dros £280,000 i'r partneriaethau. Mae CHTh dal yn sicrhau bod gan ddioddefwyr fynediad at wasanaethau cyfiawnder adferol o safon. Mae dyfodol darpariaeth CA yn cael ei drin drwy'r adolygiad annibynnol o wasanaeth Goleudy a gwasanaethau eraill ar gyfer dioddefwyr. Cyflwynir canfyddiadau ac argymhellion hyn yn gynnar fis Ionawr.
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol	20b	Amherthnasol yng Nghymru		
Grantiau gostwng trosedd ac anhrefn	20c	Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn		Mae fframwaith Cronfa Gymunedol y Comisiynydd eisoes mewn grym ac wedi'i weithredu. Mae'r broses yn cael ei monitro er mwyn sicrhau bod y broses gyfredol dal yn addas ar gyfer y diben.
		Darparu grantiau gostwng trosedd ac anhrefn yn 2019/20		Yn ddiweddar, rhoddwyd grantiau i'r 4 Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddatblygu prosiectau lleol, hyd at werth o £25,000 yr un ac mae buddsoddiad o £50,000 wedi'i roi i bartneriaid amrywiol er mwyn datblygu prosiectau yn wardiau mwyaf difreintiedig Llanelli, sef Glan-y-môr a Thyisha.

		Gwerthuso grantiau gostwng trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		Bydd proses werthuso'n cael ei sefydlu a'i gweithredu unwaith y bydd rownd bresennol grantiau Cronfa Gymunedol y Comisiynydd wedi gwreiddio.
Cytundebau cydweithio	20d	Fel y nodir yn 17h		
Cyfrifoldeb ehangach ar gyfer cyfoethogi cyflenwi cyfiawnder troseddol yn yr ardal	20e	Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu gwerth am arian		Mae cyfarfodydd adolygu gwasanaeth wedi parhau, gyda negeseuon atgoffa'n cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau amseroldeb y strwythur adrodd. Mae'r CHTH wedi ymweld yn bersonol â nifer o wasanaethau sydd wedi'u comisiynu, Mae Swyddog Cymorth Comisiynu wrthi'n trefnu blaenamserlen ymweliadau safle er mwyn archwilio pob gwasanaeth sydd wedi'i gomisiynu, yn ogystal â derbynwyr arian grant gan y CHTH. Mae'r datganiad cydymffurfiaeth cyntaf â Chod Ymarfer Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i gyflwyno. Darparwyd data gan bob asiantaeth yn erbyn pob cwestiwn a osodwyd. Codwyd nifer o ymholiadau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w hystyried yn y dyfodol.
		Cyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan		Darparwyd diweddariad gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys, sy'n tynnu sylw at feysydd llwyddiant allweddol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.
		Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau		Y Bwrdd Plismona Digidol ac fel rhan o hyn mae'r Comisiynydd yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth <ul style="list-style-type: none"> • Y Bwrdd Gweithlu Trawsnewidiol • Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu • Bwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu • Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan • Bwrdd Plismona Cymru • Grŵp Plismona Cymru Gyfan, ac yn 2019/20, ef fydd cadeirydd y grŵp